



Polisi Defnyddio Rheolaeth Gorfforol



Enw'r Ganolfan: Ysgol Gyfun Gymraeg Bro Myrddin	Rhif y Ganolfan: 68220
Adolygwyd y Polisi gan y Corff Llywodraethol ar 18/3/2021:	
Dyddiad adolygu'r polisi: Mawrth 2022	

Canllawiau i Staff ar Reolaeth Gorfforol

Amlinella y polisi hwn sefyllfaoedd pryd mae modd defnyddio grym rhesymol gan aelod o staff i reoli ymddygiad disgyblion. Rhagdybir bydd hwn ond yn cael ei ddefnyddio mewn achosion eithriadol ac fel y dewis olaf i reoli ymddygiad. Ni ddylai disgyblion ddisgwyl na chreu sefyllfa lle mae angen defnyddio grym a dylai staff wneud pob ymdrech posib i osgoi defnyddio grym rhesymol. Mae modd osgoi sefyllfaoedd drwy weithrediadau cyson a thrwy ddilyn y camau a nodwyd ym mholisi ymddygiad cadarnhaol yr ysgol.

Gweithredwyr

Caiff defnyddio grym rhesymol ei hepgor gan y Pennaeth i'r holl staff a gyflogir gan yr ysgol ar safle'r ysgol neu os yw'r disgyblion dan ofal yr aelod o staff. Mae hwn i'w weithredu'n unig gan oedolion eraill mewn achosion o argyfwng lle mae diogelwch unigolion yn y fantol.

Pwrpas

- Diogelu unigolion, eiddo ac i ddiogelu trefn a rheolaeth o fewn yr Ysgol
- Sicrhau bod yr holl ddisgyblion a staff yr Ysgol mewn amgylchedd gweithio diogel.
- Sicrhau bod Iechyd a Diogelwch yn cael ei weithredu trwy'r amser.

Canllawiau Cyffredinol

- 1) Mae'n well i dawelu sefyllfa drwy ymyrraeth cynnar geiriol nag ymyrryd drwy reolaeth corfforol
- 2) Anghyfreithlon yw defnyddio grym os nad yw'r amgylchiadau ffisegol yn ei warantu a dylid defnyddio'r grym lleiaf posib pob tro.
- 3) Os yw aelod o staff yn tybied ei fod yn gwbl angenrheidiol gellir defnyddio grym yn y sefyllfaoedd canlynol:
 - Pan yw disgybl yn ymosod ar aelod o staff
 - Pan yw disgybl yn ymosod ar ddisgybl arall
 - Pan mae disgybl yn ymladd, gan achosi risg anaf iddynt hwy ei hunain neu eraill
 - Pan yw disgybl yn cyflawni, neu ar fin gwneud, difrod bwriadol neu fandaliaeth i eiddo
 - Pan yw disgybl yn achosi, neu wrth risg o achosi, anaf neu ddifrod drwy ddamwain, drwy chwarae cas, neu drwy gamddefnyddio deunyddiau neu wrthrychau peryglus.
 - Pan yw disgybl yn ceisio gadael dosbarth neu yn ceisio gadael yr Ysgol os mae hyn yn debygol o arwain at risgiau i ddiogelwch y disgybl
 - Pan yw disgybl yn gwrthod yn barhaus i ddilyn cyfarwyddyd i adael dosbarth ac nid oes dewis rhesymol arall i'w gael.
- 4) Y digwyddiad mwyaf tebygol pan mae modd defnyddio grym rhesymol yw wrth ymyrryd mewn sefyllfa o ymladd. Mewn sefyllfaoedd lle mae grym rhesymol yn gwbl angenrheidiol dylid dilyn y canllawiau canlynol:
 - Gwasgarwch unrhyw ddisgyblion nad ydynt yn ymladd, gan fod trais yn ffynnu ar dystion
 - Peidiwch roi eich hun mewn perygl: rhowch wybod i gydweithwyr a gofynnwch am eu cymorth
 - Aseswch y sefyllfa mor fanwl â phosib yn gyntaf
 - Byddwch mor ddigyffro â phosib, peidiwch â chymryd y sefyllfa'n bersonol
 - Ceisiwch ddefnyddio ymyrraeth eiriol yn gyntaf i dawelu'r sefyllfa
 - OS yn bosib, ceisiwch alw am gymorth – cyn gorfod defnyddio grym.
- 5) Lle camddefnyddir deunyddiau peryglus, dylai staff geisio lleihau y nifer y disgyblion a all gael eu heffeithio, a dylai staff sicrhau eu bod yn diogelu eu hunain gymaint â phosib.

- 6) Ymhob achos pan bod angen defnyddio grym rhesymol, rhaid i'r aelod o staff sydd ynghlwm gasglu gymaint o wybodaeth â phosib, yn ysgrifenedig lle bo modd gan gwblhau'r ffurflen yn atodiad 1.
- 7) Anfonir copi o'r adroddiad hwn i'r pennaeth neu aelod o'r Uwch dîm arwain cyn gynted â phosib a cheir cyngor gan y gydweithiwr hynny os oes angen unrhyw weithrediadau pellach. Dylai'r aelod o staff gadw copi o'r adroddiad hefyd.
- 8) Dylid rhoi gwybod cyn gynted â phosib i rieni myfyrwyr sydd ynghlwm mewn digwyddiad. Dylai fod cyfle ganddynt i drafod y digwyddiad, a dylid cadw nodyn o'u sylwadau a'u pasio ymlaen i'r aelod o'r UDA ar gyfer gweithredu pellach yn ôl yr angen.
- 9) Drwy ddefnyddio grym rhesymol, dylid ddilyn y canllawiau isod:
 - Gosod eich hun rhwng disgyblion
 - Siarad gyda'r disgybl drwy gydol y digwyddiad er mwyn ei dawelu
 - Rhwystro llwybr disgybl
 - Dal disgybl (ond byth o gwmpas yr wddf neu o gwmpas y coler)
 - Gwthio
 - Tynnu
 - Arwain myfyriwr drwy afael yn y llaw neu'r fraich
 - Arwain disgybl i ffwrdd drwy osod llaw gwastad, agored yng nghanol y gefn
 - Mewn achosion eithriadol (fel hunanamddiffyn) gafaelion mwy rhwystredig
- 10) Dylid dilyn y canllawiau isod er mwyn sicrhau nad yw staff yn gweithredu mewn modd lle byddai'n bosibl cael anaf a bydd y canllawiau canlynol yn helpu sicrhau hyn.
 - Peidiwch dal y myfyriwr o gwmpas y gwddf
 - Peidiwch atal gallu'r myfyriwr i anadlu
 - Peidiwch slapio, pwnio neu gicio
 - Peidiwch a throi neu orfodi aelodau'r corff yn erbyn cymal
 - Peidiwch dal neu dynnu wrth y gwallt na'r glust
 - Peidiwch dal disgybl wyneb i lawr ar y llawr
 - Peidiwch â chyffwrdd mewn ffordd gellid ei hystyried yn anfoesgar

Amcanion

- 1) Sicrhau bod grym yn cael ei ddefnyddio fel mesur olaf mewn sefyllfa pan fydd y risgiau o ddefnyddio grym yn gorbwyso'r risgiau o beidio a defnyddio grym
- 2) Pan ddefnyddir grym ei fod yn resymol
- 3) Pan ddefnyddir Grym Rhesymol, fe'i ddefnyddir yn ddiogel a gydag ataliad
- 4) Ymhob achos pan ddefnyddir grym rhesymol, ceir gweithred dilynol perthnasol.

Casgliadau

Bydd gweithrediad y polisi hwn yn sicrhau fod defnydd grym rhesymol mor fach â phosib ac fe'i ddefnyddir mewn sefyllfaoedd prin iawn. Rhaid i staff adnabod a sicrhau'r angen i ystyried neu gymryd pob cam posib arall a'u bod yn dilyn y canllawiau hyn er mwyn sicrhau diogelwch bob disgybl ac er mwyn osgoi bod Ysgol Gyfun Gymraeg Bro Myrddin yn cael eu herlyn.

Ffurflen cofnod o ddigwyddiad reolaeth corfforol	
Gwybodaeth Gyffredinol	
Enw'r myfyriwr/wyr:	Dyddiad y digwyddiad:
Dosbarth:	Amser y digwyddiad:
Staff a ddefnyddiodd grym resymol:	
Swydd:	
Enwau staff a oedd yn dyst i'r digwyddiad:	
Enwau disgyblion a oedd yn dyst i'r digwyddiad:	
Digwyddiadau'n arwain at y sefyllfa	
Disgrifiad llawn o'r digwyddiad	
Pa ymddygiad dangosodd y disgybl a achosodd i rym resymol gael ei ddefnyddio?	
Risg anaf i'w hun neu eraill <input type="checkbox"/>	Risg difrod sylweddol i eiddo <input type="checkbox"/>
Risg cyflawni trosedd <input type="checkbox"/>	
Beth tybiwch chi busasai wedi digwydd pe nad oeddech wedi ymyrryd â grym rhesymol?	
Sut gafodd y disgybl ei (d)dal?	
Am ba mor hir y daliwyd y disgybl? (amcangyfrif)	
Oedd unrhyw anafiadau?	OEDD/NAC OEDD
os "Oedd", rhwch fanylion:	

Gweithrediadau Dilynol

Oedd angen triniaeth feddygol?

OEDD/NAC OEDD

Nodwch y prosesau cofnodi:

Llyfr damweiniau

Diogelu plant

Rhoddwyd gwybodaeth i'r rhiant drwy

Ffonio

Llythyru

Cyswllt personol

Dyddiad cysylltu: _____

Cwblhawyd y ffurflen gan: _____

Swydd: _____

Llofnod Pennaeth: _____ Dyddiad: _____

Dylid anfon copi o'r ffurflen i'r Corff Llywodraethol